



Adroddiad Blynyddol Safonau Iaith Gymraeg Chwaraeon Cymru – 2019/20

Cyflwyniad

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn sefydlu fframwaith cyfreithiol i orfodi dyletswyddau ar bersonau i gydymffurfio â safonau statudol perthnasol i'r Iaith Gymraeg. Daeth y Safonau i gymryd lle Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Ar ôl cyfnod o ymgynghori rhwng Chwaraeon Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg, daeth Safonau newydd ar gyfer yr Iaith Gymraeg i rym ar gyfer Chwaraeon Cymru ar Ionawr 25^{ain} 2017.

Y ddogfen hon yw Adroddiad Blynyddol Chwaraeon Cymru ar gyfer 2019/20 ar ein perfformiad yn erbyn ein Safonau Iaith Gymraeg, ac i ddarparu manylion am y gwaith partneriaeth rydym wedi'i wneud yn ystod y 12 mis diwethaf.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn bodloni'r dyletswyddau sydd wedi'u cyflwyno i ni ac yn cydnabod y rôl y gall chwaraeon ei chwarae mewn cefnogi datblygiad y Gymraeg yn y gymuned.

Uchafbwyntiau Allweddol – 2019/20

Yr Urdd

Rydym wedi parhau fel partner i'r Urdd, gan fuddsoddi'n sylweddol yn flynyddol, gyda buddsoddiad 2019-20 yn £390,934. Mae'r gyllideb yn parhau i gael ei defnyddio i ddatblygu cyfleoedd ledled Cymru i bobl ifanc gymryd rhan mewn cyfleoedd chwaraeon drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym yn buddsoddi yn y rhaglen gymunedol, gan ganolbwyntio'n bennaf ar blant oedran cynradd. Y meysydd ffocws yw: Cyfranogiad Cymunedol; Datblygu'r Gweithlu; Cystadlaethau a Digwyddiadau.

Mae creu Bwrdd Chwaraeon Cenedlaethol newydd yr Urdd wedi cael ei basio gan y Cyngor yn awr. Bydd y Bwrdd a'i aelodau'n gyfrifol am gefnogi strwythur llwyddiannus adran Chwaraeon a Phrentisiaethau'r Urdd. O ganlyniad, bydd gwaith a phroffil yr adran yn cael mwy o sylw ar draws y sefydliad.

Mae cynllun prentisiaid yr Urdd yn parhau i fynd o nerth i nerth. Mae'r cynllun yn sicrhau darpariaeth chwaraeon gynyddol ledled Cymru ac yn galluogi pobl ifanc i gael Cymwysterau cydnabyddedig (NVQ Lefel 2 Arwain Gweithgarwch ac NVQ Lefel 3 Datblygu Chwaraeon). Eleni mae prentisiaid wedi cael eu defnyddio mewn ardaloedd newydd o Gymru, gan sicrhau datblygiad mwy o gyfleoedd a gwell cyfleoedd i blant a phobl ifanc. Yn ystod 2019-20 roedd gan yr Urdd 38 o brentisiaid ar raglen Prentisiaeth yr Urdd a 30 prentis allanol yn derbyn hyfforddiant gan Adran Chwaraeon yr Urdd.

Gemau Cymru

Mae Chwaraeon Cymru wedi chwarae rhan allweddol ym menter Gemau Cymru, gan fuddsoddi £55,000 yn 2019/20 yn y digwyddiad amlchwaraeon dwyieithog a lansiwyd yn 2011 fel rhan o brosiect Gwaddol Llundain 2012 ledled Cymru. Sefydlwyd y digwyddiad fel partneriaeth rhwng Uned Digwyddiadau Mawr (UDM) Llywodraeth Cymru, Cyrff Rheoli Chwaraeon Cenedlaethol a Chwaraeon Cymru, a chomisiynwyd Urdd Gobaith Cymru fel y partner darparu. Mae'n cynnig cyfle i athletwyr ifanc talentog gystadlu mewn digwyddiad amlchwaraeon uchel ei broffil gan brofi amgylchedd pentref athletwyr ar yr un pryd.

Dyma rai o'r canlyniadau allweddol yn 2019/20:

- Mwy na 1000 o athletwyr ifanc yng Nghymru wedi cymryd rhan.
- 8 camp (9 disgyblaeth chwaraeon) wedi cael eu cynnwys yng Ngemau Cymru 2019, gyda digwyddiadau wedi cael eu cynnal ar draws lleoliadau yn y Bala, Caerdydd ac Abertawe.
- Campws Talybont Prifysgol Caerdydd oedd y lleoliad ar gyfer y pentref Athletwyr gyda mwy na 150 o gystadleuwyr yn aros yno.
- Darparwyd cludiant am ddim i gystadleuwyr o bob cwr o Cymru i ddod i'r gemau a dychwelyd adref.
- Dewiswyd 7 athletwr talentog fel llysgenhadon ar gyfer y gemau gan ddarparu ysbrydoliaeth a chefnogaeth i athletwyr.

Yn ystod 2018 a 2019, arweiniodd Chwaraeon Cymru adolygiad trylwyr o Gemau Cymru gyda mewnbwn cynhwysfawr gan yr Urdd a'r holl bartneriaid a'r chwaraeon cysylltiedig. Y penderfyniad a wnaed oedd er bod gwerth yng Ngemau Cymru, nid dyma'r defnydd mwyaf effeithiol o'r adnoddau a'r amser cysylltiedig mwyach i ddarparu'r cyfleoedd cywir i bobl ifanc Cymru. Felly digwyddiad 2019 fydd y Gemau Cymru olaf.

Mae'r dyhead i barhau â'r bartneriaeth gyda'r Urdd a'r cyrff rheoli cenedlaethol a'i datblygu, ac i ddarparu cyfleoedd Cymraeg a dwyieithog, wedi arwain at y cynlluniau a'r ymrwymadau canlynol:

- Gemau Ieuentid Trefol, Caerdydd. Mae hyn yn rhan o'r rhaglen newydd ar gyfer Gemau Cymru a chafodd ei datblygu a'i chynllunio yn ystod 2019-20, ond gohiriwyd digwyddiad 2020 oherwydd Covid-19. Mae cyllid ar y cyd wedi cael ei ddarparu gan Chwaraeon Cymru a Llywodraeth Cymru ar gyfer y digwyddiad yn 2021 fel cyllid cario drosodd o 2020. Mae'r cynlluniau ar gyfer y digwyddiad hefyd yn cynnwys elfen ddiwylliannol.
- Gweithiodd tîm Elitaidd Chwaraeon Cymru yn agos iawn gyda'r Urdd i ddarparu'r mewnbwn hyfforddi a pharatoi ar gyfer gweithdai addysgu athletwyr a rhieni mewn perthynas â phynciau fel hyfforddi a pharatoi ar gyfer cystadleuaeth, ffordd o fyw a maeth. Rhoddwyd y cynlluniau ar waith i roi profiad dysgu dwyieithog i gystadleuwyr yn nigwyddiadau mawr yr Urdd (e.e. y twrnaint Rygbi Saith Cenedlaethol) ac i wella sgiliau staff yr Urdd fel eu bod yn gallu cynnal eu sesiynau addysg eu hunain yn y Gymraeg ar draws eu rhaglen eang o dwrnameintiau, cystadlaethau a gwyliau. Er bod yr hyfforddiant a'r paratoadau wedi'u cwblhau, bu'n rhaid canslo'r digwyddiadau cychwynnol a dilynol oherwydd Covid-19.

- Bydd y cyrff rheoli cenedlaethol yn parhau i gyflwyno agweddau ar ddull Gemau Cymru o weithredu yn eu rhaglenni eu hunain neu drwy barhau â'r cydweithio a oedd yn rhan o Gemau Cymru - fel potensial chwaraeon dŵr agored ac awyr agored y digwyddiad yn y Bala a syniadau ar gyfer dyddiau asesu a gwersylloedd hyfforddi ar y cyd ar gyfer chwaraeon sy'n seiliedig ar gryfder.

Marchnata

Mae'r iaith Gymraeg yn chwarae rhan hanfodol yn ein cyfathrebu â chwsmeriaid a rhanddeiliaid.

Mae rhai prosiectau a datblygiadau nodedig yn cynnwys datblygu a lansio gwefan newydd Chwaraeon Cymru. Mae'r safle'n cynnwys togll iaith ar gyfer y Gymraeg a'r Saesneg.

The screenshot shows the top navigation bar of the Welsh Athletics website. On the left is the logo 'sportwailes chwaraeoncymru'. In the center is the slogan 'DECHRAU YMA'. On the right are search and language options for 'ENGLISH' and 'CYMRAEG'. The main content area features a large red background with the headline 'GALLUOGI I CHWARAEON YNG NGHYMRU FFYNNU' in white. Below this is the sub-headline 'NI YW CHWARAEON CYMRU.' and a short paragraph in Welsh: 'Rydyn ni eisiau gweld cenedl iachach a mwy actif. Rydyn ni eisiau i bob person ifanc gael cychwyn gwych mewn bywyd fel eu bod yn gallu mynd ymlaen i fwyntau oes o chwaraeon.' At the bottom of the text area, it says 'Ni wyf i sefylliad cenedlaethol sy'n aroffal am ddatblygu a hybu'. To the right of the text is a photograph of a woman in a grey hoodie running outdoors.

Mae eraill yn cynnwys y gwaith i hyrwyddo 25 mlynedd o'r Loteri Genedlaethol, yn ogystal â'r grant Lle i Chwaraeon gwerth miliynau o bunnoedd.

A red promotional banner with white text. The main headline reads 'RYDYN NI'N GWELLA CYMRU FEL LLE I CHWARAEON!'. Below it is the hashtag '#LLEICHWARAEON'. At the bottom left is the 'sportwailes chwaraeoncymru' logo. In the center is the Welsh national emblem, the Red Dragon. At the bottom right, it says 'Noddir gan Lywodraeth Cymru' and 'Sponsored by Welsh Government'.

Fel menter newydd, cynhaliwyd sesiynau i helpu i wella sgiliau'r staff sy'n gweithio mewn swyddi cyfathrebu gyda phartneriaid Chwaraeon Cymru, gan gynnwys sesiynau dysgu yn cynnwys tîm Comisiynydd y Gymraeg, Rygbi'r Scarlets ac Orchard (asiantaeth greadigol).

Yn ystod y flwyddyn, ar gyfer ein gwaith marchnata a hyrwyddo, cyfieithwyd mwy na 500,000 o eiriau gennym o'r Saesneg i'r Gymraeg.

Grantiau Cymunedol

Rydym yn gweithio i ddatblygu chwaraeon ar gyfer pobl yn ddwyieithog.

O blith y 1,507 o Grantiau Datblygu a'r Gist Gymunedol a ddyfarnwyd, aeth 67 i sefydliadau sy'n dweud eu bod yn darparu gweithgarwch chwaraeon **yn gyfan gwbl** drwy gyfrwng y Gymraeg, a dywedodd 301 o sefydliadau eu bod yn defnyddio'r Gymraeg yn **rhannol**. Mae'r ffigurau hyn yn gynydd o 15% ar y flwyddyn flaenorol o ran nifer y sefydliadau sydd wedi'u cyllido sy'n darparu gweithgareddau chwaraeon drwy gyfrwng y Gymraeg yn gyfan gwbl neu'n rhannol.

Dywedodd 226 o sefydliadau ar eu ffurflenni cais y byddai eu prosiect yn **cynyddu'r** defnydd o'r iaith Gymraeg yn eu sefydliad gyda 36 o sefydliadau'n dweud nad oeddent yn darparu gweithgarwch chwaraeon drwy gyfrwng y Gymraeg cyn y prosiect.

	<u>Cyn</u>	<u>Ar Ôl</u>	<u>Cynnydd</u>
Nifer y sesiynau a gyflwynwyd yn y Gymraeg (yn llawn)	902	1,651	753
Nifer yr Hyfforddwyr Cymraeg (yn llwyr)	593	963	370
Nifer y sesiynau a gyflwynwyd yn y Gymraeg (yn ddwyieithog)	3,332	2,994	-338*
Nifer yr Hyfforddwyr Cymraeg (dwyieithog)	1,256	1,058	-198*

* Mae ymchwiliad pellach yn cael ei gynnal i ddeall pam y disgwylir i'r ffigurau hyn yn y cam ymgeisio ostwng.

Ein Dyletswyddau

Ystyrir a chrynohir effaith bosib y rhai sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg fel adran safonol yn Asesiad Effaith Chwaraeon Cymru a thempled papur y Bwrdd. Mae hyn yn golygu bod rhaid ystyried yr effeithiau hyn fel rhan o bob polisi neu broses newydd, neu newid sylweddol i bolisi neu broses, ac fel rhan o'r gwaith o ysgrifennu papur pob bwrdd.

Yn ystod 2020-21, mae Chwaraeon Cymru yn bwriadu cynhyrchu un adroddiad blynyddol integredig a fydd yn adrodd yn erbyn yr holl ddyletswyddau statudol, gan gynnwys yr iaith Gymraeg.

Mae Chwaraeon Cymru wedi ymuno â grŵp o gyrff cyhoeddus i ddatblygu strategaeth ddiwylliannol ar gyfer Cymru, gan wella mynediad i gyfleoedd diwylliannol a dathlu'r diwylliant Cymraeg a'r iaith Gymraeg.

Mae Chwaraeon Cymru yn rhan o Bartneriaeth Cydraddoldeb Cyrff Cyhoeddus Cymru, grŵp o sefydliadau'r sector cyhoeddus (gan gynnwys Comisiynydd y Gymraeg) sydd wedi datblygu cyfres o amcanion cydraddoldeb lefel uchel ar y cyd y mae'r sefydliadau wedi cytuno i gydweithio i'w gweithredu. Ar gyfer Chwaraeon Cymru, bydd gweithredu'r amcanion hyn yn golygu gweithredu'n gadarnhaol ynghylch y Gymraeg yn ogystal â'r nodweddion gwarchoddedig i gynyddu amrywiaeth.

Cydymffurfio â'r Safonau

At bwrpas yr adroddiad hwn, byddwn yn darparu crynodeb o'r camau gweithredu sydd wedi'u rhoi ar waith i gadw at 'Ddosbarth o Safonau', fel Darparu Gwasanaethau, Llundio Polisiâu a Gweithredol ac ati. Nid yw'r adroddiad yn hollgynhwysfawr mewn unrhyw ffordd ac nid yw'n darparu'r wybodaeth ddiweddaraf amdanom yn cadw at bob Safon sy'n berthnasol i ni ond mae'n ceisio rhoi gwybodaeth i'r cyhoedd ac i'r Comisiynydd am y camau gweithredu sydd wedi'u rhoi ar waith i gydymffurfio â'r Safonau.

Darparu Gwasanaethau:

- Mae'r holl gyfathrebu allanol, yn gyhoeddiadau, hysbysebion, deunyddiau hyrwyddo ac ati, sy'n cael eu harddangos neu eu dosbarthu i'r cyhoedd yn gwbl ddwyieithog ac nid yw'r iaith Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- Mae pob gwahoddiad i gyfarfodydd/digwyddiadau sy'n agored i'r cyhoedd yn ddwyieithog.
- Mae pob dogfen sydd wedi'i chynhyrchu i fod yn allanol, gan gynnwys cynlluniau busnes corfforaethol a chyfrifon blynyddol, yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog ac nid yw'r iaith Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- Mae unrhyw ffurflenni cais rydym yn eu cynhyrchu'n ddwyieithog ac mae ein System Rheoli Grantiau Ar-lein yn galluogi i ymgeiswyr am grantiau nid yn unig wneud cais drwy gyfrwng y Gymraeg ond hefyd rheoli'r broses gyfan (gan gynnwys yr ohebiaeth) yn yr iaith o'u dewis.
- Mae ein gwefan gorfforaethol a'r micro-safleoedd yn gwbl ddwyieithog, ac rydym yn defnyddio system 'togl' iaith i alluogi defnyddwyr i gyfnewid rhwng edrych ar dudalennau yn y Gymraeg a'r Saesneg, gyda phob tudalen ar y wefan â fersiwn Cymraeg a Saesneg. Hefyd mae gennym URL's Cymraeg.

The screenshot shows the website for Atebion Clwb. At the top, there is a navigation bar with links for 'A A A', 'ERTHYGLAU', 'CYSYLLTU Â NI', 'CYLCHLYTHYR', 'ASESIAD CLWB', 'ENGLISH', and 'Chwilio'. Below this is the logo 'atebionclwb' and the tagline 'HELP I GLYBIAU A GWIRFODDOLWYR CHWARAEON YNG NGHYMRU'. A secondary navigation bar contains links for 'HAFAN', 'RHEOLI EICH CLWB', 'CYLLID CLWB', 'HYBU EICH CLWB', 'POBL YN EICH CLWB', and 'CYFLEUSTERAU'. The main content area features a large red banner with the heading 'CROESO' and the text: 'Rhedeg clwb chwaraeon yng Nghymru? Croeso i Atebion Clwb! Eich bag cit sy'n llawn o gyfarwyddyd a phollisiau ac adnoddau cynllunio sydd am ddim i'w lawriwytho.' At the bottom of the banner is a button labeled 'RHAGOR O WYBODAETH' with a right-pointing arrow.

- Mae pob ap a gwasanaeth digidol rydym yn eu datblygu'n gwbl ddwyieithog, mae ganddynt ryngwynebaw Cymraeg ac mae'r fersiynau Cymraeg yn gwbl weithredol.
- Ar gyfryngau cymdeithasol nid ydym yn trin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol mewn unrhyw ffordd ac os bydd aelod o'r cyhoedd yn cysylltu â ni ar gyfryngau cymdeithasol yn y Gymraeg, rydym yn cysylltu ag ef neu hi yn yr iaith o'i ddewis.
- Mae'r holl arwyddion yn ein Canolfannau Cenedlaethol ac yn ein digwyddiadau'n ddwyieithog. Roeddem yn arfer datblygu arwyddion gyda'r testun Saesneg yn gyntaf ond mae arwyddion newydd wedi cael eu prynu (pwrpasol mewn sawl achos) gan sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei darllen yn gyntaf.





- Rydym wedi datblygu proses ar gyfer y staff i gyd o ran sut i ddelio ag ymholiadau Cymraeg a manylir ar y broses hon ar dudalennau Cymraeg ein mewnruyd gorfforaethol.

- Mae Chwaraeon Cymru wedi cyflogi 2 siaradwr Cymraeg newydd yn y timau Gwasanaethau Cwsmeriaid a'r Dderbynfa yng Nghaerdydd er mwyn gwella'r ddarpariaeth Gymraeg.

Argymhellion ar gyfer gwella gan Gomisiynydd y Gymraeg	Cam Gweithredu a Roddwyd ar Waith
Polisi grantiau yn ei le ac yn cynnwys ystyriaeth i'r iaith Gymraeg.	Llunio polisi grantiau yn rhoi sylw i effeithiau grantiau ar yr iaith Gymraeg.
Darparu siaradwr Cymraeg fel rhan o'r ymateb cychwynnol i bawb sy'n ffonio.	Gan fod swyddogaethau'r dderbynfa wedi aildechrau bellach ar ôl cyfyngiadau symud cenedlaethol Covid-19, bydd cynlluniau'n cael eu gweithredu ym mis Hydref 2020 i newid y llwybrau ffôn a chyfrifoldebau staff er mwyn sicrhau bod ymateb ffôn yn y Gymraeg ar gael yn ystod y dydd yng nghanol yr wythnos gan staff Chwaraeon Cymru. Mae'r gyllideb hefyd wedi ymrwymo i gontractio ym mis Hydref ar gyfer canolfan alwadau Gymraeg i ddarparu gwasanaeth ffôn newydd gyda'r nos a thros y penwythnos yn y dderbynfa yn y Gymraeg.

Llunio Polisiau:

- Gofynnodd y cyflwyniadau blynyddol am gefnogaeth gan bartneriaid strategol (cyrff rheoli cenedlaethol a Phartneriaid Cenedlaethol) i'w cynlluniau roi sylw i anghydraddoldeb ledled Cymru. Roedd y Gymraeg yn un o'r 5 nodwedd a nodwyd.
- Cyhoeddodd Chwaraeon Cymru adroddiad 'Cyflwr y Genedl' Arolwg Cenedlaethol Cymru yn ddwyieithog.
- Oherwydd effaith y stormydd a'r llifogydd ym mis Chwefror 2020 ac wedyn effaith enfawr pandemig Covid-19, lansiodd Chwaraeon Cymru ddwy gronfa newydd ar gyfer y cyhoedd (y Gronfa Cymorth Mewn Argyfwng ERF; Cronfa Cymru Actif BAWF). Mae'r ddwy gronfa wedi cael eu hybu a'u hysbysebu'n ddwyieithog ac mae ganddynt systemau cyfarwyddyd ac ymgeisio sy'n cael eu darparu'n ddwyieithog.
- Fel rhan o'n darpariaeth ddigidol, creodd Chwaraeon Cymru, drwy feddalwedd Zendesk, system cwestiynau cyffredin ac ymateb i grantiau awtomatig newydd sydd hefyd yn ddwyieithog.
- Mae'r iaith Gymraeg yn rhan o'n proses Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb sy'n gorfod cael ei chwblhau gyda phob prosiect/strategaeth/polisi newydd rydym yn eu datblygu. Felly, ystyrir effaith unrhyw ddarn o waith ar yr iaith Gymraeg ochr yn ochr â ffrydiau cydraddoldeb eraill, gan gynnwys DALIE, LHDT ac amddifadedd cymdeithasol.

Gweithredol:

- Rydym wedi parhau i ddatblygu ein safle Mewnwyd i gynnwys dolenni drwedd i'n Cynllun Iaith Gymraeg presennol a hefyd ein polisi mewnol, brawddegau Cymraeg defnyddiol a chlipiau sain o gyfarchion Cymraeg i gynorthwyo gyda dysgu'r staff.
- Mae gan **bob** swydd wag sgiliau yn y Gymraeg wedi'u rhestru fel meini prawf dymunol ar y disgrifiadau swyddi erbyn hyn. Roedd 15 swydd wag yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20 ac o blith y rhai a ddechreuodd o'r newydd gyda ni, mae 8 naill ai'n siaradwyr Cymraeg rhugl neu rannol, gan gynnwys rhai mewn swyddi allweddol sy'n delio â'r cyhoedd.

- Fel rhan o arolwg blynyddol ar y cyflogeion, gofynnwyd i'r staff i gyd a oeddent yn dymuno derbyn yr ohebiaeth ysgrifenedig am eu cyflogaeth yn y Gymraeg.
- Mae ein llawlyfr staff sy'n manylu ar ein polisiau corfforaethol, sy'n rhoi sylw i bopeth o iechyd a diogelwch i reoli perfformiad ac absenoldeb a manteision y gweithle, yn ddwyieithog.
- Mae'r staff i gyd yn ymwybodol o'r cyfle i gyflwyno cwynion drwy gyfrwng y Gymraeg ac y bydd y broses gwynion gyfan yn cael ei chwblhau yn yr iaith o'u dewis.
- Mae'r staff i gyd yn cael cyfle i dderbyn hyfforddiant Cymraeg yn ystod eu horiau gwaith, os mai felly maent yn dewis dysgu.
- Ar ôl i ni lansio ein hyfforddiant Cymraeg ar gyfer staff yn 2016, mae sawl cyflogai wedi parhau i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r cynllun hwn yn parhau ac rydym yn cynnal sesiynau blasu yn rheolaidd i annog dysgwyr newydd. Cynhaliwyd sesiynau blasu newydd yn gynnar yn 2020 gyda 7 yn bresennol, ac maent i gyd yn bwriadu dechrau ar y cwrs dechreuwr ym mis Hydref 2020. Mae pedwar aelod o staff wedi cwblhau'r cwrs canolraddol yn 19-20 ac yn bwriadu symud ymlaen i'r cwrs uwch ym mis Hydref.
- Rheolir yr holl lofnodion e-bost yn fewnol gan ein hadran TGCh ac maent yn ddwyieithog.
- Mae ein holl hysbysebion swyddi yn ddwyieithog ac mae'r holl ddeunyddiau cefnogi ar gyfer swyddi gwag, fel ffurflenni cais a disgrifiadau swyddi, yn ddwyieithog.
- Pan mae ymgeisydd yn gwneud cais am swydd wag yn y Gymraeg, cwblheir y broses recriwtio lawn yn yr iaith o'i ddewis.

Cadw cofnodion:

- Rydym yn cadw cofnod bob blwyddyn o nifer y cwynion rydym yn eu derbyn, os o gwbl, yn gysylltiedig â'r iaith Gymraeg ac o ran sut rydym yn cadw at Safonau'r Iaith Gymraeg. Yn ystod blwyddyn ariannol 2019/20, ni chawsom unrhyw gŵyn ffurfiol am ddefnydd o'r iaith Gymraeg.
- Rydym yn cadw cofnod o nifer y siaradwyr Cymraeg yn Chwaraeon Cymru. Yn 2019/20, roedd fel a ganlyn:

Siaradwr Cymraeg	%
Rhugl	7.2
Rhannol	<5
Dechreuwr	<5
Ddim yn siarad Cymraeg	20.6
Heb ddatgan	63.6

- Fel rhan o'r cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd bydd Chwaraeon Cymru yn dechrau ar waith newydd i gynyddu manwl gywirdeb a chyflawnder y data am amrywiaeth y staff, gan gynnwys sgiliau iaith Gymraeg.
- Cofnododd y data a gasglwyd gan reolwyr Plas Menai ym mis Tachwedd 2019 fod 43 allan o'r 68 aelod o staff sy'n gweithio ar sail barhaol, cyfnod penodol neu achlysurol yno yn siaradwyr Cymraeg

rhugl ac roedd 5 yn siarad Cymraeg fel ail iaith neu fel dysgwyr, cyfanswm o 71% gyda sgiliau yn y Gymraeg.

Ategol – Darparu Gwasanaethau / Llundio Polisiâu / Gweithredol / Cadw Cofnodion:

- Mae ein 'Cynllun Iaith Gymraeg' (http://sport.wales/media/1890653/welsh_language_corporate_doc_english.pdf) yn cynnwys ein holl safonau ac mae ar gael ar ein gwefan.
- Mae manylion am sut byddem yn rheoli cwyn sy'n gysylltiedig â'r iaith Gymraeg wedi'u cynnwys yn y Cynllun Iaith Gymraeg sy'n cael ei grybwyll uchod.
- O gael cais am hynny, byddwn yn fwy na pharod i roi unrhyw wybodaeth am ein dull o gadw at unrhyw rai o'r safonau y mae'n ddyletswydd arnom i gydymffurfio â hwy.
- Er ein bod wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran datblygu a hybu'r iaith Gymraeg, mae sawl maes yr ydym eisiau eu datblygu. Byddwn yn gweithio'n gadarnhaol ar y rhain wrth gynllunio ac yn adrodd yn ôl ar gynnydd yn rheolaidd.

Astudiaethau Achos o'n partneriaid strategol:

Mae'r adran newydd hon o'r adroddiad yn cydnabod rôl Chwaraeon Cymru o ran annog ein partneriaid i ymestyn eu darpariaeth Gymraeg ac mae hefyd yn dangos yr ymrwymiad y mae sefydliadau chwaraeon yn dymuno ei wneud i'r iaith.

Gemau Cymanwlad Cymru (GCC)

Darpariaeth Gymraeg:

- Mae'r holl ddatganiadau i'r wasg, cylchlythrau a negeseuon e-bost cyfathrebu swyddogol (e.e. y rhai a anfonir i ysgolion, cyrff rheoli cenedlaethol, partneriaid a rhanddeiliaid am fentrau neu gynlluniau newydd) a'r holl gyfryngau cymdeithasol yn ddwyieithog neu yn y ddwy iaith ar wahân.
- Mae cynnwys y Cyfryngau Cymdeithasol yn ddwyieithog. Un ffocws mawr yw #Ysbrydoli, rhaglen ymgysylltu ag ysgolion GCC. Mae hon yn defnyddio athletwyr Cymraeg eu hiaith mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg lle mae'r holl gyflwyniadau 100% yn y Gymraeg. Yn ystod llawer o'u hymweliadau ag ysgolion cyfrwng Saesneg, mae eu cyflwyniadau yn aml yn ddwyieithog (neu'n cynnwys y Gymraeg yn y sesiwn) i annog y defnydd o'r iaith ymhlith dysgwyr. Defnyddir y Gymraeg mewn 100% o ysgolion i raddau amrywiol, gan ddibynnu ar a ydynt yn iaith gyntaf neu'n ail iaith, a hefyd gan ddibynnu ar oedran y disgyblion.

<https://twitter.com/ysbrydolicymru>

<https://www.facebook.com/watch/?v=696999744166265>

- Partner Elusennol GCC yw'r Urdd (sefydliad ieuencid mwyaf Ewrop). Mae hon yn bartneriaeth arwyddocaol ac mae eu gwaith ar y cyd yn elfen fawr o weithgareddau ymgysylltu GCC. Mae GCC yn cynhyrchu cynnwys Cymraeg ar gyfer ei gylchgronau

<https://www.facebook.com/126663540695143/videos/2342964235742911>

- Diwrnod y Gymanwlad. Cynhaliodd GCC eu digwyddiad Diwrnod y Gymanwlad am y tro cyntaf mewn Ysgol Uwchradd Gymraeg yn y Barri, ac wedyn eleni yng nghanolfan antur yr Urdd yn Llangrannog. Roedd y seremoni'n ddwyieithog, gydag areithiau, canu a llefaru'n digwydd drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd hyn yn cynnwys darllediadau gan gwmnïau teledu, radio ac ar-lein, gydag eitem annibynnol ar raglen 'Heno' ar S4C. Mae GCC bob amser yn ceisio annog cyfweiliadau yn y Gymraeg gyda'u hathletwyr elitiadd, yr hyfforddwyr a'r pencadlys, ar gyfer eu darlledu neu ar gyfer y gynulleidfa mewn digwyddiadau amrywiol.

<https://www.facebook.com/teamwales.cymru/videos/200775347867107>

- Mae GCC wedi ymrwmo ar lefel Bwrdd y dylai ei waith cyfathrebu fod yn ddwyieithog a'i fod yn hapus i dalu cost ychwanegol am unrhyw gyfieithu sy'n ofynnol er mwyn gallu cyfathrebu'n uniongyrchol yn y ddwy iaith.

- Mae GCC yn cynllunio pecyn cyfryngau ar gyfer Gemau'r Gymanwlad Birmingham 2022 i gynnwys cyfieithiadau Cymraeg syml o ymadroddion a ddefnyddir yn rheolaidd i gefnogi'r cyrff rheoli cenedlaethol hynny nad oes ganddynt staff Cymraeg eu hiaith o bosib, na gwasanaeth cysylltiadau cyhoeddus Cymraeg.

- Mae GCC yn teimlo bod eu darpariaeth Gymraeg yn cynyddu eu sylw darlledu a'r cyfryngau gan ddenu S4C, BBC Radio Cymru a chylchgronau ac erthyglau ar-lein Cymraeg, ac maent wedi datblygu perthynas y gellir ymddiried ynddi gyda'r rhain i gyd.

- Mae GCC wedi cynhyrchu a defnyddio polisi iaith Gymraeg ymarferol.
- Anogir interniaid sy'n gweithio gyda GCC i ddefnyddio'r Gymraeg os yw hynny'n bosib ac i ychwanegu at y defnydd gweithredol o'r iaith.

Gymnasteg Cymru:

Isod manylir ar fel maent wedi ymestyn eu darpariaeth Gymraeg yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:

- Cydweithio â Gymnasteg Prydain i ymestyn y gefnogaeth i aelodau Cymraeg eu hiaith – Mae'r system aelodaeth ar gael yn ddwyieithog bellach; casglu data iaith Gymraeg ar y system aelodaeth (data ar gael i ALL a chlybiau); mae 30% o'r aelodau'n dweud eu bod yn siaradwyr Cymraeg.

- Mae gwaith ar droed i ddarparu rhai cyrsiau Addysg Hyfforddwyr drwy e-ddysgu cyfrwng Cymraeg – y cwrs cyntaf yw Hyfforddi Cadarnhaol (cynnwys y cwrs: ego tasg; dull o weithredu sy'n rhoi lle canolog i'r plentyn; addysgeg), sy'n ofynnol ar gyfer pob Lefel 2 yn y DU fel hyfforddiant gloywi ac mae'n cael ei ychwanegu at Lefel 2 ar gyfer pob hyfforddwr newydd.

- 'Cynllun Camu Ymlaen' Covid-19 wedi'i gyfieithu (y cynllun adfer chwaraeon).

- Gohebiaeth allweddol at aelodau a chlybiau yn cael ei hanfon yn ddwyieithog.

- Cyllideb wedi'i chymeradwyo ar gyfer taflenni Diogelu dwyieithog.

- Adnoddau cyfranogiad ar gyfer clybiau ar gael yn ddwyieithog ac mae'n fwriad cynnal hyn fel rhan o'r holl gydweithredu yn y dyfodol gyda gweithgorau Gymnasteg Prydain a Gymnasteg yn y Gwledydd Cartref.

- Cyfleoedd hyfforddi cyfrwng Cymraeg a Chymraeg digwyddiadol ar gyfer partneriaid darparu allweddol i gyflwyno rhaglenni gymnasteg Cyn-Ysgol a chyffredinol.

- Adnoddau cefnogi Cymraeg wedi'u creu fel rhan o'r prosiect Blynyddoedd Cynnar Iach ac Actif a ddechreuwyd yn ddiweddar.